## Cymorth i ddygwyr ag anableddau (gan gynnwys gwahaniaethau dysgu fel dyslecsia)

Mae Athrofa Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau nad yw anabledd yn rhwystro unigolion i gymryd rhan llawn mewn dysgu, ac addysgu nag yn rhwystro hygyrchedd i, gyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr presennol a newydd.

Mae gan berson anabledd os oes ganddyn nhw nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith sylweddol hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgaredd dydd i ddydd arferol (Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae sylweddol yn golygu **'yn fwy na bychan a dinod'**. Mae hirdymor yn golygu ei fod wedi para am fwy na 12 mis, neu ei fod yn debygol o bara drwy gydol eu hoes. Mae Anabledd yn cynnwys amrywiaeth eang o namau corfforol a meddyliol, gan gynnwys trafferthion symudedd, nam ar y clyw eu'r golwg, neu wahaniaethau dysgu penodol gan gynnwys dyslecsia, cyflyrau meddygol a phroblemau iechyd meddwl.

Mae gan Athrofa Padarn Sant gyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion gydag anableddau.

Os ydych yn mynychu cyfarfod un-tro , gweminar, neu sesiwn hyfforddi ar-lein neu mewn person, rhowch wybod i gydlynydd y digwyddiad ( dyma'r person sydd yn anfon y wybodaeth am y digwyddiad i chi) fel ein bod yn medru gwneud addasiadau ar eich cyfer.

Os ydych yn astudio rhaglen yn Athrofa Padarn Sant a'ch bod ag anabledd neu yn meddwl fod gennych anabledd, rydym ni eisiau gwneud ein gorau i sicrhau nad yw'n rhwystr i'ch dysgu. Er mwyn i ni wneud addasiadau rhesymol are ich cyfer mae angen i chi ddilyn y camau isod:

**Datgan - Tystiolaeth - Asesiad - Cymorth**

Byddwn yn eich annog chi ac yn eich cefnogi chi wrth i chi fynd drwy'r camau priodol.

### 1. Datgan

Y cam cyntaf er mwyn cael cymorth yw dweud wrthym ni amdano. Gall hwn fod wrth i chi gofrestru ar gyfer y rhaglen, neu gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg yn ystod eich astudiaethau. Efallai eich bod yn ansicr os oes gennych anghenion dysgu. Os mai hynny yw'r achos, siaradwch gyda'ch tiwtor personol, neu e-bostio'r Tîm Cymorth Dysgu ar: learningsupport@stpadarns.ac.uk .

**2.** Darparu **tystiolaeth**

Bydd angen tystiolaeth er mwyn i ran nesaf y broses allu ddigwydd.  Os ydych wedi cofrestru fel anabl, fe fyddwch gyda gwaith papur fel tystiolaeth o'ch anabledd. Ar gyfer cyflwr meddygol neu broblem iechyd meddwl bydd tystiolaeth gan eich doctor yn ddigonol. Ar gyfer gwahaniaethau dysgu megis dyslecsia bydd angen asesiad diagnostig. Os nad oes gennych hyn yn barod gallwn ni rhoi chi mewn cyswllt gyda sefydliad rydym yn gweithio gyda hwy.

Os ydych gwneud eich hyfforddiant Ymgeisydd Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth byddwn yn edrych I'ch cefnogi chi I gael asesiad diagnostig lle fo'n briodol.

**3. Asesiad** o anghenion Dysgu

Ar gyfer pob dysgwyr sy'n astudio ar gyrsiau a achredir bydd asesiad o anghenion dysgu yn cael ei wneud drwy wneud cais i Gyllid Myfyrwyr am Lwfans Myfyrwyr Anabl(DSA). Mi fyddwn ni'n helpu chi i wneud y cais hwn.  Os yw eich cais yn llwyddiannus byddan nhw yn trefnu asesiad anghenion dysgu ar eich cyfer. Bydd hwn yn dynodi pa gymorth sydd ei angen arnoch er mwyn cyflawni eich astudiaethau. Bydd yr asesiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth arbenigol ar ba addasiadau rydym ni angen eu hystyried er mwyn eich cefnogi chi yn eich dysgu, megis estyniadau i ddyddiau cyflwyno aseiniadau. Bydd hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer pethau fel offer, meddalwedd arbenigol, ac os oes angen cymorth un wrth un. Bydd hefyd yn cymeradwyo'r cyllid i dalu am y ddarpariaeth ac yn ei drefnu i chi. Grant yw hwn ac nid benthyciad ac ni fydd angen ei dalu yn ôl.

Os ydych yn dewis peidio ymegisio am y Lwfans I fyfyrwyr Anabl (DSA)  mae'n bosib y gellir gwneud rhai addasiadau safonedig ar euch cyfer, os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn cyfiawnhau rhain.

Os ydych yn ymgeisydd ar gyfer Ffurfiant i'r Weinidogaeth ac nid yn fyfyriwr ar gwrs achrededig cysylltwch: learningsupport@stpadarns.ac.uk I drafod asesiad.

**4.** Cynllun **Cymorth**

Unwaith mae gennym ni yr asesiad anghenion byddwn yn llunio Cynllun Cymorth i chi, fydd yn cael ei rhannu gyda'r pobl sydd ynghlwm a'ch astudiaethau er enghraifft tiwtoriaid, goruchwylydd lleoliad (lle bo'n briodol), llyfrgellydd a.y.b. Ni fydd y cynllun

hwn yn nodi eich anabledd ond mi fydd yn esbonio'r addasiadau sydd angen ei gwneud ar eich cyfer. Bydd yr addasiadau yn ddibynnol ar beth yw eich anabledd, ond gallai fod yn bethau megis benthyciadau llyfrgell hirach, neu estyniadau i ddyddiad terfyn cyflwyno aseiniadau. Byddwch chi yn rhan o lunio'r cynllun ac mi fyddwch chi yn ei arwyddo cyn iddo fynd at unrhyw un.

**Os ydych yn gofyn am gymorth cyn I'r asesiad anghenion gael ei gwblhau, o cos yw addasiaadu safonedig rhesymol yn cael ei gyfiawnhau gan y dystiolaeth ategol bydd cynllun dysgu interim yn gael ei greu.**

**Os ydych yn dewis peidio a mynd rwy'r broses DSA (os ydych yn astudio rhaglen academaidd) neu unrhyw broses o asesiad a bennir gan Athrofa Padarn Sant ( os nad ydych yn astudio rhaglen academaidd) dim ond addasiadau safonedig rhesymol y gellir ei rhoi mewn lle.**

Bydd y Tîm Cymorth Dysgu yma i'ch helpu drwy'r broses felly peidiwch â phryderu am y broses. Ond mae rhaid i chi fynd drwy'r broses er mwyn cael y cymorth a'r addasiadau sydd eu hangen, achos ein bod yn cymryd eich anghenion dysgu o ddifrif. Nid yw'r fferylllfa yn rhoi meddyginiaethau allan achos eich bod chi yn meddwl eu bod yn eich helpu chi; maen nhw'n gwneud hynny'n gywir, gyda'r doctor yn gwneud y penderfyniad, fel eich bod yn cael y meddyginiaethau cywir. Yr un yw'r achos gyda chymorth dysgu - mae angen mynd drwy broses i sicrhau eich bod yn cael y cymorth rydych chi wir ei angen ag sydd mynd i weithio i chi.